2IL O HYDREF

Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol

Wythnos yma



HMS Dydd Llun

Cofiwch mai diwrnod HMS fydd dydd Llun, 5ed o Hydref, ac felly ni fydd ysgol i'r plant ar y diwrnod hwn.
Edrychwn ymlaen at groesawu'r holl ddisgyblion yn ôl i'r ysgol ddydd Mawrth, 6ed o Hydref.

Bws Beic

Diolch yn fawr i bawb a ymunodd â ni bore 'ma ar fws beic cyntaf y tymor. Roedd yn hyfryd gweld cymaint o blant, rhieni a staff yn dod at ei gilydd i deithio i'r ysgol mewn ffordd iach, gynaliadwy a chymdeithasol.
Mae'r bws beic yn ffordd wych o ddechrau'r diwrnod gyda'n gilydd, gan roi cyfle i'r plant fod yn egnïol a mwynhau'r daith i'r ysgol gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd.
Edrychwn ymlaen yn fawr at y bws beic nesaf! Cofiwch fod croeso cynnes i bawb ymuno, byddem wrth ein bodd yn gweld hyd yn oed mwy o deuluoedd yn ymuno â **ni!**

Rygbi

Pob hwyl i dîm rygbi Blwyddyn 5 a 6 yr ysgol heddiw wrth iddynt chwarae gêm gyfeillgar yng Nghaeau Pontcanna yn erbyn Ysgol Melin Gruffydd.
Rydym yn falch iawn o'r ffordd y mae ein disgyblion yn cynrychioli'r ysgol, gan ddangos gwaith tîm a dyfalbarhad!
Diolch yn fawr i Mr Rhodri Lewis am hyfforddi'r tîm.

Calendr

Diwrnod HMS
5ed o Hydref

Nosweithiau Rhieni Blwyddyn 6
6/7 o Hydref

Noson Bingo y GRhA
9fed o Hydref

Holiadur Darllen

Mae darllen yn flaenoriaeth bwysig iawn i ni yn yr ysgol. Ein nod yw datblygu sgiliau darllen uwch ein disgyblion a gwella rhuglder pob disgybl, ond yn bennaf oll meithrin cariad a mwynhad at ddarllen.

Mae pob disgybl o'r Derbyn i Flwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn carwsel darllen peth cyntaf bob bore.

Yn ogystal, am 3yp bob prynhawn, cynhelir sesiwn "Darllen a dim arall" lle mae staff ac ymwelwyr yn darllen i'r holl ddisgyblion.

Rydym hefyd yn cynnal clwb darllen amser cinio, ac rydym yn edrych ymlaen at gynnal Caffi Darllen i rieni a disgyblion ym mis Tachwedd.

Bydd hwn yn gyfle gwych i ddod at ein gilydd, rhannu llyfrau a syniadau, a dathlu'r mwynhad a ddaw o ddarllen.

Rydym yn gyffrous iawn hefyd i fod yn arwain ar brosiect darllen newydd, gan gydweithio ag ysgolion eraill y consortiwm i ddatblygu gweithgareddau pontio darllen rhwng rhieni a'r ysgol.

Er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu'r gwaith hwn yn y ffordd orau bosibl, rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn chi fel rhieni.

Os oes gennych bum munud, byddem yn ddiolchgar iawn pe baech yn llenwi'r holiadur drwy'r ddolen a ddarperir.

Bydd eich syniadau a'ch barn yn ein helpu i gynllunio'r camau nesaf, a sicrhau bod ein darpariaeth ddarllen yn diwallu anghenion ein disgyblion a'n teuluoedd.

Holiadur Darllen i Rieni / Reading Questionnaire for Parents – Cydweithio



Bore Agored Ysgol Treganna

Cofiwch ddod i ymweld â'n hysgol ar gyfer ein Bore Agored ddydd Gwener, 16eg o Hydref.

Bydd hwn yn gyfle gwych i chi ddod i weld ein darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a chael cipolwg ar y profiadau cyfoethog sydd ar gael i'n disgyblion.

Gallwch weld drosoch eich hun pam mae Estyn wedi canmol annibyniaeth, mentergarwch a disgwyliadau uchel y disgyblion yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn.

Un ychwanegiad cyffrous i'n ddarpariaeth Derbyn eleni yw'r ystafell newydd" Y Gegin Fach". Rydym yn annog y disgyblion i goginio, dilyn ryseitiau, cydweithio a datblygu eu hannibyniaeth drwy weithgareddau ymarferol.

Edrychwn ymlaen yn fawr at eich croesawu i'r ysgol. Bydd cyfle hefyd i chi grwydro o gwmpas gweddill yr ysgol ac ymweld â'n hardaloedd dysgu awyr agored.

Pêl droed merched yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i'r tri tîm pêl-droed merched a fu'n cystadlu ddoe yn nhwrnamaint pêl-droed yr Urdd.

Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o ferched yn cael y cyfle i gystadlu, ac fe wnaeth pawb berfformio'n wych ac un tîm wedi llwyddo i gyrraedd y rownd cyn-derfynol!

Roedd y brwdfrydedd, y gwaith tîm a'r agwedd gadarnhaol a ddangoswyd gan y disgyblion yn wych i'w gweld.

Diolch yn fawr i Miss Mathews, Miss Hughes a Miss Owen am hyfforddi'r merched a'u cefnogi drwy gydol y twrnamaint.

Agor y Llyfr

Diolch yn fawr i griw Agor y Llyfr am gynnal gwasanaeth arbennig yn yr ysgol fore dydd Llun.
Roedd y plant wrth eu bodd yn gwylio'r gwasanaeth ac yn ymgolli'n llwyr yn y stori a'r perfformiad.
Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser a'r ymdrech a roddir gan griw Agor y Llyfr i greu profiadau mor gofiadwy i'n plant.
Diolch yn fawr iawn!

Patrwm Iaith yr Wythnos

Wyt ti'n gallu?
Ydw/ Nac ydw

Her
A wnei di...? Gwnaf
A wnewch chi...? Gwnawn

Testun trafod yr wythnos
Y peth pwysicaf yn y byd yw...

Cân yr wythnos

Mali Haf - Shwsh

Idiom/ Dihareb yr wythnos
Bwrw hen wragedd a ffyn